



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	29 Gorffennaf 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 1299/2007 ar gydnabod grwpiau cynhyrchwyr hopys;
- Rheoliad gan y Comisiwn (EU) Rhif 589/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â safonau marchnata ar gyfer wyau;
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 511/2012 ar hysbysiadau sy'n ymwneud â sefydliadau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-ganghennol a negodiadau a chysylltiadau contractiol y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth;
- Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd- drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol;
- Rheoliad y Cyngor (EU) Rhif 1370/2013 sy'n penderfynu ar fesurau ar gyfer pennu cymhorthion ac ad-daliadau penodol sy'n gysylltiedig â'r gyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol;
- Rheoliad (UE) Rhif 510/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu'r trefniadau masnachu sy'n gymwys i nwyddau penodol sy'n ganlyniad i brosesu cynhyrchion amaethyddol;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2016/232 sy'n ategu Rheoliad (EC) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas ag agweddau penodol ar gydweithrediad rhwng cynhyrchwyr;
- Rheoliad Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin; a
- Rheoliadau'r Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/821).

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol

Mae'r offeryn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol a deddfwriaethol eu natur, a fydd yn arferadwy ganddo ef yn unig, i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Swyddogaethau a drosglwyddir i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Mae'n bosibl bod rhoi swyddogaeth weinyddol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn golygu bod paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Mae'r paragraff hwn yn darparu na chaiff darpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad ddileu nac addasu, na rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ddileu neu i addasu, unrhyw un o swyddogaethau awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig, oni fydd Gweinidog (priodol) y DU yn cydsynio i'r ddarpariaeth. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, byddai gofyn cael cydsyniad Gweinidog priodol y Goron.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE sy'n rhan o gyfraith y DU sy'n ymwneud â threfnu marchnadoedd cyffredin mewn amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol. Maent yn cywiro diffygion sy'n codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE ac yn sicrhau y bydd y deddfwriaeth yn gweithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Maent hefyd yn trosglwyddo amryfal swyddogaethau rheoleiddiol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/AX5BZYHq>

Pam na roddwyd cydsyniad

Er mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod Cyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd a'r PAC yn faterion sydd wedi'u datganoli ac nad ydynt yn faterion a gedwir yn ôl o dan unrhyw un o'r penawdau yn yr Atodlen Materion a Gedwir yn Ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw Llywodraeth y DU o'r un farn. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod effaith Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cyflawni amcanion polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru o sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn y DU yn parhau i weithredu'n effeithiol.